**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 8 Mehefin 2000 |
| **Amser:** | 9:30 am – 12.30 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD YNGL•N Â SHANKS CHEMICAL SERVICES, PONT-Y-P•L (RECHEM YN FLAENOROL)

### Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn crynhoi 'Adroddiad Statws' Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar Shanks Chemical Services Cyf. (Rechem International Cyf. yn flaenorol) ac yn pwysleisio prif gasgliadau'r adroddiad.

### Cefndir

2. Ym mis Rhagfyr 1999, cyhoeddodd Alun Michael, Prif Ysgrifennydd y Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd, ei fod wedi gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru adolygu a chynnig adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf yng nghyfleuster llosgi gwastraff peryglus Shanks Chemical Services ym Mhont-y-pðl. Cyflwynwyd yr arolwg amgylcheddol mawr blaenorol (Prosiect Monitro Panteg) i'r Swyddfa Gymreig ym 1995.

3. Penderfynodd Alun Michael wneud hyn ar ôl i'r Aelod Cynulliad a'r AS lleol fynegi eu pryderon iddo y gallai'r gweithgareddau a gynhelir ar y safle fod yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac ar iechyd y bobl leol.

### Cwmpas yr Adroddiad

4. Mae adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn sôn am berfformiad y Cwmni o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth y mae’r Asiantaeth yn gyfrifol am ei gweithredu yn y cyfleuster ym Mhont-y-pðl. Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn berthnasol:

- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 (Rheoli Llygredd Integredig)
- Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993
- Rheoliadau Cludo Gwastraff mewn Llong ar Draws Ffiniau 1994
- Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996

- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999

5. Mae'r adroddiad yn adolygu gwybodaeth monitro amgylcheddol ynglþn â PCBs a diocsinau yn yr amgylchedd o'u cymharu â'r lefelau hynny a ganfuwyd yn Astudiaeth Panteg a gynhaliwyd ym 1995. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r adran sy'n ymwneud â chyflwr yr amgylchedd gan yr Athro L E J Roberts. Yr Athro Roberts oedd cynghorwr gwyddonol annibynnol Prosiect Monitro Panteg.

6. Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau ymgynghori gyda chyrff rheoleiddio perthnasol eraill megis y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac Awdurdod Iechyd Gwent. Mae hwn yn cynnwys cyfraniadau a gwybodaeth berthnasol ynglþn â chydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch er enghraifft, ac arolygon iechyd o'r boblogaeth leol ac ati.

**Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad**

7. Dyma brif gasgliadau'r adroddiad:

i. Mae gan y Cwmni drwydded amgylcheddol, sef awdurdodiad Rheoli Llygredd Integredig (RhLlI). Mae dull gweithredu RhLlI yn ystyried rhyddhau deunydd i bob cyfrwng amgylcheddol yng nghyd-destun eu heffaith ar yr amgylchedd yn gyffredinol. Gelwir yr opsiwn sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd yn gyffredinol yr opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau (OSYG). Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i brosesau diwydiannol megis y rhai hynny a gyflawnir gan Shanks Chemical Services, ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael heb iddynt gostio gormod (Best available techniques not entailing excessive cost – BATNEEC) er mwyn atal sylweddau penodol rhag cael eu gollwng i'r amgylchedd neu ostwng y cyfanswm sy'n cael ei ollwng cymaint ag y bo modd, a gwneud yr holl sylweddau'n rhai diogel.

ii. Adolygwyd yr awdurdodiad RhLlI gan yr Asiantaeth ym 1998. Daethpwyd i'r casgliad bod safon y cyfleuster yn dda a'i fod yn cyflawni gofynion yr Asiantaeth oherwydd bod y Cwmni yn defnyddio BATNEEC gyda'r OSYG.

iii. Cymerwyd camau gweithredu yn erbyn y cwmni ym 1994 a 1996 oherwydd fod gweddillion hylifol (dafnau) o simnai'r ffwrnais wedi gwaddodi y tu allan i ffin y safle, ac yn dilyn dau ddigwyddiad ar wahân lle bu tân o fewn y safleoedd storio gwastraff. Ers 1996, nid oes unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol wedi codi ac mae'r Cwmni wedi cydymffurfio'n llawn ag amodau ei awdurdodiad RhLlI.

iv. Mae nifer y cwynion cyhoeddus yn erbyn y cwmni wedi disgyn yn sylweddol ers 1994. Ym 1999, derbyniwyd pedair cwyn o gymharu â dros 100 ym 1994.

v. Ers iddo gael tystysgrif cofrestru dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1960 (1993 yn awr) ym 1986, mae'r Cwmni wedi cydymffurfio'n llawn ag amodau'r dystysgrif honno. Nid oes unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â deunyddiau ymbelydrol wedi codi ar y safle. Mae cyfanswm y gwastraff ymbelydrol sy'n cael ei drin yn Shanks yn fach iawn. Mae'r peryglon ymbelydrol yn fach iawn hefyd.

vi. Mae'r cwmni wedi cydymffurfio'n llawn gyda phob elfen o'r Rheoliadau Cludo Gwastraff mewn Llong ar Draws Ffiniau a Rheoliadau Gwastraff Arbennig. Nid yw'r Asiantaeth wedi cael unrhyw reswm

i gymryd unrhyw fath o gamau gweithredu.

vii. Ar hyn o bryd, mae’r Asiantaeth yn mynd yn ei flaen gyda'r broses o weithredu'r Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff Peryglus trwy amrywio'r drwydded RhLlI bresennol. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaeth o'r farn nad oes unrhyw beth i atal y Cwmni rhag cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb.

viii. Fel awdurdod cymwys ar y cyd â’r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, bydd yr Asiantaeth yn gweithredu Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 1999. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i Shanks yn uniongyrchol oherwydd y dulliau rheoli peryglon damweiniau mawr sy'n cynnwys sylweddau peryglus.

ix. Mae'r Cwmni wedi derbyn hysbysiad ffurfiol gan y Corff Safonau Prydeinig (BSI) yn ddiweddar i gofrestru â BS EN ISO 14001, sef y safon system rheoli amgylcheddol rhyngwladol.

x. Dengys y mesuriadau amgylcheddol a wnaethpwyd ar samplau o bridd, glaswellt ac aer yn agos i'r safle ers 1995, bod gwelliannau a wnaethpwyd i'r dechnoleg ar y safle yn ymwneud â llosgi a'r prosesau cynorthwyol, wedi arwain at welliant yn yr amodau amgylcheddol.

xi. Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn fodlon gyda pherfformiad y cwmni o ran iechyd a diogelwch.

xii. Mae Awdurdod Iechyd Gwent wedi datgan "nid yw'r data a gasglwyd er mwyn monitro statws iechyd poblogaeth Awdurdod Iechyd Gwent yn dangos rhagor o salwch a allai awgrymu cyswllt â Rechem".

xiii. Roedd ymateb yr Awdurdod Iechyd a'r Awdurdod Lleol yn trafod yr angen am astudiaeth epidemiolegol. Nid yw'r mater hwn o fewn cylch gorchwyl yr Asiantaeth ac efallai y bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ei ystyried.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

18 Mai 2000